

bwys ei waith enfawr yn llunio'r gwaith hwnnw, yn anad yr un gymwynas arall mae'n debyg, y dyfarnodd Prifysgol Cymru radd anrhydedd M.A. i'r awdur.

Nid oes raid cyfeirio at holl wasanaeth unigryw James Ifano Jones yn yr ysgrif hon, gan fod hynny eisoes wedi cael ei wneud gan W. W. Price, Aberdâr, yn rhifyn Gorffennaf 1955 (Cyf. viii, Rhif 2) o *Cylchgrawn y Gymdeithas Lyfryddol Gymreig*, rhyw bedwar mis cwta ar ôl marw'r llyfrgellydd hynod. Yn hytrach, carwn gyfeirio'n arbennig at gynnwys llythyr a anfonodd James Ifano Jones at Bwyllgor Llyfrgell Caerdydd yn hysbysu ei fwrriad i ymddeol ar y dydd olaf o Ragfyr 1925, llythyr a ddarllenwyd gerbron Is-bwyllgor Llyfrgelloedd (Gweinyddu) Dinas Caerdydd, Rhagfyr 8, 1925, ac sy'n dweud llawer wrthym heddiw am ddiwydrwydd anhygoel y gŵr prin ei fanteision addysg o Aberdâr, a fu'n bennaf gyfrifol am osod y sylfaen i'r casgliad enfawr o lyfrau a chylchgronau Cymraeg a geir yng Nghaerdydd heddiw.

Wele rannau allweddol o'r

llythyr dadlennol hwnnw mewn cyfieithiad:

'Ar ôl treulio dros 29 o flynyddoedd o wasanaeth arbenigol yn y Llyfrgell Gymreig, 'rwyf wedi penderfynu ymddiswyddo, gan obeithio y gwelir yn dda i ganiatau fy nghais. Wedi hir bendronni uwchben y mater, penderfynais ymddiswyddo yn bennaf am fy mod yn wr blinedig. 'Rwyf angen gorffwys. Nid wyf wedi blino ar fy ngwaith; yn hytrach 'rwy'n flinedig yn fy ngwaith... Tristwch mawr i mi fydd gorfod terfynu fy ngwasanaeth yn y Llyfrgell Gymreig, oherwydd i bob pwrpas "fy llyfrgell i" ydyw; ac er pan ymunais â hi ym 1896 fe welais ei chynnwys yn chwyddo o saith mil o bamffledi a llyfrau a dwy fil o lawysgrifau, i bum mil a thrigain o bamffledi a llyfrau printiedig, a phedair mil o lawysgrifau, a'r Llyfrgell hon yw'r Llyfrgell Gymreig a ddefnyddir fynychaf erbyn heddiw. Cyn ymddeol 'roeddwn wedi lled obeithio y byddwn yn medru cyhoeddi catalog yn cynnwys manylion llawn am 53,000 o ychwanegiadau i'r Llyfrgell Gymreig er pan gyhoeddwyd y *Catalog Gymreig* 27 o flynyddoedd yn ôl. Ond 'rwy'n hyderu y bydd i'm holynydd, neu ei staff, weld yn dda i gyflawni'r gwaith hwnnw, ac y bydd fy nodiadau personol a'm rhestrau o help i rywrai yn y gwaith, ac yn gaffaeliad hefyd ar gyfer llawer o genedlaethau i ddod.'

Cafodd James Ifano Jones fyw am bron i ddeng mlynedd ar hugain i fwynhau ymddeoliad llawn a phrysur. Bu farw ym Mhenarth ar Fawrth 7, 1955, yn 89 oed.

A HISTORY  
OF  
PRINTING AND PRINTERS  
IN WALES TO 1810,

AND OF  
SUCCESSIVE AND RELATED PRINTERS TO 1923.

ALSO,  
A HISTORY  
OF  
PRINTING AND PRINTERS  
IN  
MONMOUTHSHIRE TO 1923.

BY  
IFANO JONES,  
THE WELSH LIBRARIAN, CARDIFF.

WILLIAM LEWIS (PRINTERS), LIMITED, CARDIFF.  
1925.

# 'Y MAE LLYFRAU FEL FFYNHONNAU . . .' ROBIN GWYNDAF YN YMADAEL Â RHAN O'I LYFRGELL

*Y cyfaill gorau, cofia,  
A lleufer dyn yw llyfr da,*

meddai Ieuan Brydydd Hir. Mor wir y geiriau hyn. Bûm yn meddwl llawer amdanynt yn ddiweddar am resymau a ddaw yn amlwg yn y man. Felly y sylw bachog hwnnw gan awdur anhysbys i mi (er na fyddai pawb yn cytuno ag ef, bid siwr): 'Byddyd dy lyfrau, fel dy gyfeillion, yn ychydig a detholedig'.

Cofiw'n hefyd am y ddau sylw cofiadwy hyn, y cyntaf gan Emrys ap Iwan, a'r ail yn perthyn i'r Trioedd:

*'Gwnewch ichwi gyfeillion o lyfrau, fel pan eloch yn hen y bo gennych rywrai i'ch derbyn pan fo llawer yn eich gwrthod.'*

*'Tri pheth y dylai gŵr ddwyn ei blant arnynt: parch i'w Creawdwr, dysgeidiaeth ar lyfr, a chelyddyd at fywoliaeth.'*

Ond i mi fy hoff ddyfyniad, heb os, yw'r geiriau godidog o eiddo Morgan Llwyd yn ei *Llythyr i'r Cymru Cariadus*:

*'Y mae llyfrau fel ffynhonnau a dysgawdwy'r fel goleuadau lawer yr awrhon ymysg rhai dynion.'*

Swm a sylwedd y dywediadau hyn yw nad rhwydd yw gwahanu â llyfrau a fu'n gyfeillion am ran dda o oes dyn. Fodd bynnag, yn 8

fy achos i gwahanu sy raid, ond, a diolch am hynny, gwahanu â chyfran yn unig o'm llyfrgell. A hynny am un rheswm. Ers rhai blynyddoedd bellach bûm yn canolbwyntio ar ddatblygu llyfrgell weddol gynhwysfawr o lyfrau yn ymwneud yn arbennig â llen a diwylliant gwerin. Mewn gair, rhaid dethol. Y mae dybryd angen rhagor o le yng Nghwm Eithin, Caerdydd, cyn i'r llyfrau ymlid y teulu allan o'r tŷ!

Ar gael felly mae oddeutu 600 o lyfrau Cymraeg a chasgliad pur helaeth o gylchgronau (er nad oes ond ychydig rifynnau o rai ohonynt).

Cynigir y llyfrau a'r cylchgronau am bris rhesymol a throsglwyddir yr arian at achosion da. Rwy'n fodlon rhannu rhai eitemau yn rhad ac am ddim i unrhyw un a all wneud defnydd ohonynt. Cynigir, er enghraifft, y cylchgronau a ganlyn yn rhodd i **ysgolion**: *Barn* (yn gyflawn o'r dechrau, 1962-); *Y Faner* (yn gyflawn o 1977 hyd y rhifyn olaf, 17 Ebrill 1992); *Y Gwyddonydd* (1963-93, set gyflawn).

Dyma restr o'r cylchgronau eraill sydd ar gael: *Y Frythones*, *Y Gymraes*, *Y Geiniogwerth*, *Y Ford Gron* (yn gyflawn), *Y Tyddynnwyr*, *Cymru* (wedi'u

rhwymo), *Y Llenor*, *The Welsh Outlook*, *Heddiw*, *Y Beirniad*, *Y Brython*, *Y Fflam*, *The Welsh Anvil/Yr Einion*, *Y Drysorfa*, *Trysorfa'r Plant*, *Cenad Heddiw*, *Yr Eisteddfod*, *Y Cymmrodor*, *Cyfaill yr Aelwyd*, *Lleufer*, *Seren Gomer*, *Y Genhinen*, *Y Traethodydd*, *Goleuad Gwynedd*, *Taliesin* (1860-1).

Ymhlith y llyfrau sydd ar gael gellir nodi a ganlyn:

Casgliad helaeth o lyfrau beirdd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.

Casgliad o ddramâu cynnar. Cofsiannau megis *Cofiant John Jones*, *Tal-sarn*; *Cofiant Edward Mathews*, *Ewenni*; a *Cofiant Thomas Gee*, gan T. Gwynn Jones.

Cyfes pamffledi Coleg Harlech. Casgliad gwerthfawr o eiriaduron Y Gymraeg.

Casgliad bychan o lyfrau yn perthyn i'r ail ganrif a'r bymtheg a'r ddeunawfed. Yn eu plith:

Rowland Fychan, *Yr Ymarfer o Dduwioldeb*, 1630 (Blaenddalen yn eisiau).  
John Davies, *Mallwyd*, *Llyfr y Resolution*, ail arg., 1684 (Blaenddalen yn eisiau).  
Edward Samuel, *Gwirionedd y Grefydd Grismogol*, 1716.  
Griffith Jones, *Llanddwroror*, *Dwy Ffurf o Weddi*, 1762.  
Dafydd Elis, *Derwen*, *Gwybodaeth ac Ymarfer o'r Grefydd Grismogol* . . . neu

*gymhygiad i Athrawiaethau'r Indiaid*, 1774.

E. Jones, *Llanefrewig*, *Cydymaith yr Eglwyswyr yn Ymweled â'r Claf*.

Ar gael hefyd y mae casgliad helaeth o lyfrau Saesneg, yn cynnwys, er enghraifft, waith beirdd a llenorion Lloegr. Ymhlith y llyfrau Saesneg ceir casgliad bychan o lyfrau pur werthfawr o'r ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif.

Y cyfeiriad yw:

**Cwm Eithin**  
37 Heol Sant Mihangel  
Llandaf  
Caerdydd CF5 2AL  
Tel: (0222) 566249

## AR GAEL YN RHAD AC AM DDIM I GARTREF DA 'SEREN Y DWYRAIN'

Hwn oedd y cylchgrawn a gyhoeddwyd yn yr Aifft yn ystod y rhyfel diwethaf ar gyfer y bechgyn a wasanaethai yn y Lluoedd Arfog.

Mae rhai o'r ôl-rifynnau i'w cael yn rhad ac am ddim oddi wrth:

**T. ELWYN GRIFFITHS**  
15 ERW WEN  
CAEATHRO,  
CAERNARFON, GWYNEDD